

Cofnodion Pwyllgor 23.03.2021 - drwy 'Zoom'

Yn Bresennol

Cen Llwyd	Alun Evans (Yn y gadair)
Mary Davies	Aled Dafis
Pît Dafis	Ann Harris

Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyngorwr Cecil Jones a Gareth Lloyd.

Cofnodion

Cynigiwyd cofnodion mis Chwefror yn gywir gan y Cyng Mary Davies ac ategwyd hyn gan y Cyng Cen Llwyd.

Materion yn Codi o'r Cofnodion

Tudalen 'Facebook' Mae'r Cyng Aled Dafis wedi creu tudalen 'Facebook' ar gyfer y Cyngor Cymuned. Cyngor Cymuned Llandysilio-go-go ydy enw'r dudalen. Estynnwyd ein gwerthfawrogiad iddo am gwblhau'r gwaith yma.

Swydd y Clerc Nodwyd fod yna un ymgeisydd ar gyfer y swydd hyd yma. Penderfynwyd trefnu cyfweiliad ar gyfer nos Fawrth 13.4.21. Mi fydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cynnal y cyfweiliad.

Gwteri Nodwyd fod y gwteri rhwng y Neuadd a Glennydd, Talgarreg wedi ei glanhau yn ogystal a'r gwteri ar ffordd Gwenlli.

Ceisiadau Cynllunio

A210093Llaindafydd, Llwyndafydd – Creu arena 20m x 40m pob tywydd ar gyfer ceffylau a mynedfa newydd i'r cae – Dim gwrthwynebiad.

Gohebiaeth

Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon i Gymru Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar Gynllun Newydd Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon i Gymru. Mae'r clerc wedi danfon manylion yr ymgynghoriad.

Ceisiadau Cymorth Ariannol

Penderfynwyd gwneud y cyfraniadau ariannol canlynol:-

Gofal Mewn Galar Cruse	£100.00
Cyngor ar Bopeth Ceredigion	£100.00

Taliadau

Cyngor Sir Ceredigion	£369.15
Mr Flag.com	£298.90
Tindle Newspapers Wales	£164.16

Unrhyw Fater Arall

Tir cyfagos i Toiledau Cwmttydu Wnaeth y Cyng Aled Dafis adrodd ei fod wedi hysbysu swyddog o'r Cyngor Sir ynglyn a'r modd mae tir wedi suddo ger yr adeilad yma.